



Mae'r Daflen Wybodaeth hon yn rhoi cyfarwyddyd am yr hyn sydd angen i chi ei wneud i drefnu prawf golwg, yn cynnwys talu am y prawf golwg hwnnw a phrynu offer cywiro angenrheidiol e.e. sbectol. Mae'n rhan o gyfres o Daflenni Gwybodaeth i gefnogi'r Polisi Safonol 'Defnyddio Cyfrifiaduron (Offer Sgrin Arddangos) yn Ddiogel'.

Er mwyn i'r Brifysgol gwrdd â'i dyletswyddau o dan y Rheoliadau Offer Sgrin Arddangos, rhaid i bob Coleg/Adran dalu am brofion golwg i'w Defnyddwyr Offer Sgrin Arddangos a chyfrannu at gost unrhyw sbectol sydd eu hangen i sicrhau iechyd a diogelwch y Defnyddiwr.

Nid oes gan y brifysgol unrhyw gyfrifoldeb cyfreithiol i ddarparu profion golwg na sbectolau i fyfyrwyr israddedig nac ôl-raddedig (nad ydynt yn aelodau staff) nac i staff cyflogwyr eraill sydd wedi eu lleoli yn y Brifysgol.

Bydd y Brifysgol yn talu uchafswm o £25 tuag at brawf golwg safonol a £44 tuag at sbectol os oes eu hangen at waith offer sgrin arddangos. Rhaid i unrhyw wariant pellach gael ei gymeradwyo gan eich Adran/Ysgol cyn mynd at yr optegydd neu gael ei glirio gan yr aelod staff.

I drefnu prawf golwg:

- Llenwch y ffurflen sydd ynghlwm
- Gofynnwch i Bennaeth y Coleg / Adran neu eich Rheolwr Llinell i'w hawdurdodi a rhoi cod cost iddi
- Os byddwch yn mynd i **Specsavers Bangor** rhaid i chi gael rhif archeb brynu **(ni ellir prosesu ffurflenni Specsavers Bangor heb rif archeb brynu)**
- Gwnewch y trefniadau ar gyfer eich prawf golwg
- Ewch â'r ffurflen wedi'i hawdurdodi i'r Optegydd a fydd yn cwblhau gweddill y manylion. (Gwnewch yn siŵr bod yr Optegydd yn awdurdodi'r ffurflen)

Talu am brawf golwg a sbectol (os bydd eu hangen):

- Os byddwch yn mynd i Specsavers Bangor byddant yn cadw'r ffurflen ac yn codi'r ffi yn uniongyrchol ar eich Coleg / Adran
- Os byddwch yn cael eich prawf golwg a sbectol gan Optegydd arall:
 - Mae'n bwysig nad yw'r Optegydd yn cadw'r Ffurflen, gan y byddwch ei hangen i hawlio'r arian yn ôl gan eich Coleg / Adran, ynghyd â'r dderbynnwch wreiddiol **(Ni thelir arian os na fyddwch yn darparu'r dderbynnwch wreiddiol)**
 - Cyflwynwch y Ffurflen wedi'i chwblhau ynghyd â'r dderbynnwch wreiddiol i Adran Gyllid eich Coleg / Adran (*nid i Wasanaethau Iechyd a Diogelwch*) fel y byddech yn ei wneud wrth hawlio unrhyw dreuliau eraill

SYLWCH: Rhaid i weithwyr gael llofnod wedi'i awdurdodi, ac yn achos Specsavers Bangor Rhif Archeb Brynu, cyn cael y prawf golwg. Rhaid rhoi'r ffurflen i'r Optegydd i'w chwblhau.

Enw:	Rhif Cyflogres:
Teitl Swydd:	Rhif Archeb Brynu os ydych yn defnyddio Specsavers Bangor:
Ysgol / Adran:	Cod Cost yn achos pob optegydd heblaw am Specsavers Bangor:

Llofnod Rheolwr Llinell: **Dyddiad:**

Rhowch brawf golwg priodol os gwelwch yn dda i'r gweithiwr Prifysgol Bangor uchod yn unol â Rheoliad 5 y Rheoliadau Offer Sgrin Arddangos.

ADRODDIAD YR OPTEGYDD (i'w gwblhau gan yr Optegydd)

Rhoddwyd prawf llygaid a phrawf golwg llawn ar (rhowch y dyddiad):

Dilêwch y pwyntiau bwled canlynol fel sy'n briodol:

- Dangosodd canlyniadau'r prawf nad oedd unrhyw ddiffygion golwg dros y pellter sy'n gymwys at ddefnyddio OSA
- Mae canlyniadau'r prawf yn dangos nam golwg sydd angen cywiriad wrth weithio gydag OSA
- Mae angen teclyn cywiro arbennig (sbectol) ar gyfer Offer Sgrin Arddangos penodol

Dyddiad a argymhellir ar gyfer y prawf nesaf (rhowch ddyddiad):

COSTAU (i'w gwblhau gan yr Optegydd)

1. Prawf Llygaid a Golwg (**uchafswm £25**):
2. Cyfanswm Cost y Sbectol (**uchafswm £44**):

CYFANSWM COST I BRIFYSGOL BANGOR:

Rwy'n tystio bod yr adroddiad / costau uchod yn gywir ac yn unol â safonau Cymdeithas yr Optometryddion ar gyfer defnyddwyr Offer Sgrin Arddangos

Llofnod yr Optegydd: **Dyddiad:**

AELOD STAFF

Rwy'n cadarnhau bod (Optegwyr) wedi cwblhau Prawf Golwg ac y darparwyd yr offer cywiro arbennig (sbectol) gofynnol.

Llofnod y Defnyddiwr (Aelod Staff): **Dyddiad:**